



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1809 (Cy.140)

2005 No. 1809 (W.140)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

**Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion)
(Gorchmynion Dileu Arbennig a
Gwyro Arbennig) (Cymru)
2005**

**The Highways (Schools) (Special
Extinguishment and Special
Diversion Orders) (Wales)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mewnosodwyd adrannau 118B a 119B o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn y drefn honno. Maent yn galluogi gorchmynion i gael eu gwneud i gau (drwy gyfrwng "gorchmyn dileu arbennig") a gwyro (drwy gyfrwng "gorchmyn gwyro arbennig") briffyrdd penodol at ddibenion atal troseddu neu er mwyn amddiffyn disgyblion neu staff ysgolion.

Sections 118B and 119B of the Highways Act 1980 ("the 1980 Act") were inserted by paragraphs 8 and 12 of Schedule 6 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 respectively. They enable orders to be made to stop up (by a "special extinguishment order") and divert (by a "special diversion order") certain highways for the purposes of crime prevention or for the protection of pupils or staff of schools.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 15 Gorffennaf 2005, yn rhagnodi'r ffurfiau a'r hysbysiadau, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn, ar gyfer gorchmynion dileu arbennig a gorchmynion gwyro arbennig sy'n ymwneud â phriffyrdd sy'n croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol, ac sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn disgyblion neu staff. Bydd cymhwyso'r mathau hyn o orchmynion at ddibenion atal troseddu yn dod yn weithredol yn nes ymlaen.

These Regulations, which come into force on 15 July 2005, prescribe the forms and notices, and make provision as to the procedure, for special extinguishment orders and special diversion orders which relate to highways crossing land occupied for the purposes of a school and which are required to protect pupils or staff. The application of these types of orders for the purposes of crime prevention will be implemented at a later date.

Mae rheoliad 3 ac Atodlenni 1 a 2 yn rhagnodi ffurf gorchmyn dileu arbennig a gorchmyn gwyro arbennig yn y drefn honno.

Regulation 3 and Schedules 1 and 2 prescribe the form of a special extinguishment order and a special diversion order respectively.

Mae rheoliad 4(1) i (3) ac Atodlen 3 yn rhagnodi ffurf yr hysbysiadau sydd-

Regulation 4(1) to (3) and Schedule 3 prescribe the form of notices to be-

- (a) i'w rhoi unwaith y bydd gorchmyn wedi'i wneud gan yr awdurdod priffyrdd perthnasol;
- (b) i'w cyflwyno unwaith y bydd gorchmyn wedi'i gadarnhau; ac
- (c) i'w cyflwyno unwaith y bydd gorchmyn wedi'i wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

- (a) given once an order has been made by the relevant highway authority;
- (b) served once an order has been confirmed; and
- (c) served once an order has been made by the National Assembly for Wales.

Mae rheoliad 4(4) ac Atodlen 4 yn rhagnodi personau ychwanegol y mae'r hysbysiadau a bennir yn y rheoliad hwnnw i'w cyflwyno iddynt.

Mae rheoliad 5 yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth gyflwyno ac wrth gadarnhau'r gorchymynion.

Mae rheoliad 6 yn rhagnodi'r gofynion o ran cyflwyno hawliadau am ddigollediad o dan adran 28 o Ddeddf 1980 a hynny am ddibrisiant neu aflonyddwch a ddaw yn sgil gorchymyn ac mae'n ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw hawliad o'r fath i'w gyflwyno fel ei fod yn dod i law o fewn 6 mis i'r dyddiad y daw'r gorchymyn i rym.

Regulation 4(4) and Schedule 4 prescribe additional persons on whom the notices specified in that regulation are to be served.

Regulation 5 sets out the procedures to be followed in the submission for confirmation, and confirmation, of the orders.

Regulation 6 prescribes the requirements with regard to the service of claims for compensation under section 28 of the 1980 Act for depreciation or disturbance in consequence of an order and requires any such claim to be served so as to be received within 6 months of the order coming into force.

2005 Rhif 1809 (Cy.140)**2005 No. 1809 (W.140)****PRIFFYRDD, CYMRU****HIGHWAYS, WALES****Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion)
(Gorchmynion Dileu Arbennig a
Gwyro Arbennig) (Cymru)
2005****The Highways (Schools) (Special
Extinguishment and Special
Diversion Orders) (Wales)
Regulations 2005**

Wedi'u gwneud 5 Gorffennaf 2005
Yn dod i rym 15 Gorffennaf 2005

Made 5 July 2005
Coming into force 15 July 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 28(2) (fel y'i cymhwysir gan adran 121(2)), 118B(9) a (10) a 119B(12) a (13) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("y Ddeddf")(1) a pharagraffau 1(1) a (3)(b)(iv), 3(1), (2) a (3)(b), 4(1) a 6 o Atodlen 6 iddi, sef pwerau sydd bob un yn awr yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(2), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 28(2) (as applied by section 121(2)), 118B(9) and (10) and 119B(12) and (13) of, and paragraphs 1(1) and (3)(b)(iv), 3(1), (2) and (3)(b), 4(1) and 6 of Schedule 6 to, the Highways Act 1980 ("the Act")(1), all of which are now exercisable by the National Assembly(2), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Dileu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Highways (Schools) (Special Extinguishment and Special Diversion Orders) (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 15 July 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall-

ystyr "Awdurdod" yw'r awdurdod priffyrdd perthnasol;

Interpretation

2. In these Regulations, unless the context otherwise requires-

"Authority" means the relevant highway authority;

(1) 1980 p.66; mewnosodwyd adrannau 118B a 119B gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37); diwygiwyd adran 121(2) gan baragraff 14(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37); gwnaed diwygiadau perthnasol i Atodlen 6 i Ddeddf Priffyrdd 1980 gan baragraff 23 o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(2) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i hestynnwyd gan adran 99 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(1) 1980 c.66; sections 118B and 119B were inserted by paragraphs 8 and 12 of Schedule 6 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37); section 121(2) was amended by paragraph 14(3) of Schedule 6 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37); relevant amendments to Schedule 6 to the Highways Act 1980 were made by paragraph 23 of Schedule 6 to the Countryside and Rights of Way Act 2000.

(2) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as extended by section 99 of the Countryside and Rights of Way Act 2000.

ystyr "gorchymyn" yw-

- (a) gorchymyn dileu arbennig(1);
- (b) gorchymyn gwyro arbennig(2); neu
- (c) gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn o fath a bennir yn (a) neu (b); ac

mae cyfeiriad at ffurf neu hysbysiad a ragnodir gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys cyfeiriad at y ffurf honno neu'r hysbysiad hwnnw yn Gymraeg neu yn Saesneg (neu yn y ddwy iaith) ac at ffurf neu hysbysiad sy'n sylweddol yr un fath â'r rhai a ragnodir o ran ei heffaith neu ei effaith.

Ffurfiâu gorchymyn

3.-(1) Os ymddengys i Awdurdod ei bod yn ofynnol i briffordd berthnasol sy'n croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol -

- (a) gael ei chau at ddiben a bennir yn adran 118B(1)(b) o'r Ddeddf gan orchymyn dileu arbennig, rhaid i'r gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn;
- (b) gael ei gwyro at ddiben a bennir yn adran 119B(1)(b) o'r Ddeddf gan orchymyn gwyro arbennig, rhaid i'r gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r map y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn gorchymyn fod ar raddfa nad yw'n llai nag 1/2,500 neu, os nad oes map o'r fath ar gael, fod ar y raddfa fwyaf sydd ar gael.

(3) Yn achos gorchymyn dileu arbennig, rhaid i'r map y cyfeirir ato ym mharagraff (2) ddangos unrhyw lwybr amgen sy'n rhesymol gyfleus.

Hysbysiadau

4.-(1) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan baragraff 1(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Ffurf 1 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff 4(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â chadarnhau gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Ffurf 2 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff 4(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn gan y Cynulliad Cenedlaethol fod ar y ffurf a geir yn Ffurf 3 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

an "order" means-

- (a) a special extinguishment order(1);
- (b) a special diversion order(2); or
- (c) an order varying or revoking an order of a type specified in (a) or (b); and

reference to a form or notice prescribed by these Regulations includes reference to that form or notice in the English or Welsh language (or both) and to a form or notice substantially to the same effect to that prescribed.

Forms of order

3.-(1) Where it appears to an Authority that a relevant highway which crosses land occupied for the purposes of a school for a purpose specified in-

- (a) section 118B(1)(b) of the Act is required to be stopped up by a special extinguishment order, the order must be in the form set out in Schedule 1 to these Regulations;
- (b) section 119B(1)(b) of the Act is required to be diverted by a special diversion order, the order must be in the form set out in Schedule 2 to these Regulations.

(2) The map required to be contained in an order must be on a scale of not less than 1/2,500 or, if no such map is available, on the largest scale readily available.

(3) In the case of a special extinguishment order, the map referred to in paragraph (2) must show any reasonably convenient alternative route.

Notices

4.-(1) A notice required to be given under paragraph 1(1) of Schedule 6 to the Act in respect of the making of an order must be in the form set out in Form 1 in Schedule 3 to these Regulations.

(2) A notice required to be served under paragraph 4(1) of Schedule 6 to the Act in respect of the confirmation of an order must be in the form set out in Form 2 in Schedule 3 to these Regulations.

(3) A notice required to be served under paragraph 4(1) of Schedule 6 to the Act in respect of the making of an order by the National Assembly must be in the form set out in Form 3 in Schedule 3 to these Regulations.

(1) *Gweler* adran 118B(5) o'r Ddeddf.

(2) *Gweler* adran 119B(5) o'r Ddeddf.

(1) *See* section 118B(5) of the Act.

(2) *See* section 119B(5) of the Act.

(4) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff 1(3)(b)(iv)(1) neu 4(1)(a)(2) o Atodlen 6 i'r Ddeddf gael ei gyflwyno, yn ychwanegol, i'r personau a ragnodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.

Gweithdrefn gorchymynion

5.-(1) Rhaid bod dau gopi ar gael o orchymyn.

(2) Os cyflwynir gorchymyn i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gadarnhau, rhaid i'r gorchymyn a'r ail gopi gael eu hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â-

- (a) dau gopi arall o'r gorchymyn;
- (b) copi o'r hysbysiad a roddir o dan baragraff 1(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf;
- (c) unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau sy'n ymwneud â'r gorchymyn, a wnaed yn briodol ac na chawsant eu tynnu'n ôl;
- (ch) unrhyw sylwadau sydd gan yr Awdurdod ar y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau hynny; a
- (d) datganiad yn nodi ar ba seiliau, ym marn yr Awdurdod, y dylid cadarnhau'r gorchymyn.

(3) Caniateir cynnal unrhyw drafodion sy'n rhagarweiniol i gadarnhau gorchymyn dileu arbennig ar yr un pryd ag unrhyw drafodion sy'n rhagarweiniol i gadarnhau gorchymyn creu llwybr cyhoeddus(3), gorchymyn gwyro llwybr cyhoeddus(4), gorchymyn gwyro croesfan reilffordd(5) neu orchymyn gwyro arbennig.

(4) Ar ôl i benderfyniad i beidio â chadarnhau gorchymyn gael ei wneud, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y cydymffurfir â gofynion paragraff 4(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, roi ardystiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Ar ôl i orchymyn gael ei gadarnhau gan y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y cydymffurfir â gofynion paragraff 4(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, roi ardystiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Ar ôl i orchymyn gael ei gadarnhau, rhaid i'r Awdurdod anfon copi o'r gorchymyn, fel y'i cadarnhawyd, at yr Arolwg Ordnans.

(4) A notice required to be served under paragraph 1(3)(b)(iv)(1) or 4(1)(a)(2) of Schedule 6 to the Act must, additionally, be served on the persons prescribed in Schedule 4 to these Regulations.

Procedure for orders

5.-(1) An order must be made in duplicate.

(2) Where an order is submitted to the National Assembly for confirmation, the order and duplicate must be sent to the National Assembly, accompanied by-

- (a) two further copies of the order;
- (b) a copy of the notice given under paragraph 1(1) of Schedule 6 to the Act;
- (c) any representations or objections with respect to the order which were duly made and have not been withdrawn;
- (d) any observations the Authority has on those representations or objections; and
- (e) a statement of the grounds on which the Authority considers that the order should be confirmed.

(3) Any proceedings preliminary to the confirmation of a special extinguishment order may be taken concurrently with any proceedings preliminary to the confirmation of a public path creation order(3), a public path diversion order(4), a rail crossing diversion order(5) or a special diversion order.

(4) After a decision not to confirm an order, the Authority must, as soon as the requirements of paragraph 4(3) of Schedule 6 to the Act have been complied with, certify that fact in writing to the National Assembly.

(5) After an order has been confirmed by the National Assembly, the Authority must, as soon as the requirements of paragraph 4(1) of Schedule 6 to the Act have been complied with, certify that fact in writing to the National Assembly.

(6) After an order has been confirmed, the Authority must send a copy of the order, as confirmed, to the Ordnance Survey.

(1) Amnewidiwyd paragraff 1(3)(b) gan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (p.69), Atodlen 16, paragraff 6.

(2) Amnewidiwyd paragraff 4(1)(a) gan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 16, paragraff 8.

(3) *Gweler* adran 26(1) o'r Ddeddf.

(4) *Gweler* adran 119(1) o'r Ddeddf.

(5) *Gweler* adran 119A(3) o'r Ddeddf.

(1) Paragraph 1(3)(b) was substituted by the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69), Schedule 16, paragraph 6.

(2) Paragraph 4(1)(a) was substituted by the Wildlife and Countryside Act 1981, Schedule 16, paragraph 8.

(3) *See* section 26(1) of the Act.

(4) *See* section 119(1) of the Act.

(5) *See* section 119A(3) of the Act.

Hawliadau am ddigollediad mewn cysylltiad â gorchmynion

6.-(1) Rhaid i hawliad a wneir yn unol ag adran 28 o'r Ddeddf (digollediad am golled a achosir gan orchymyn creu llwybr cyhoeddus), fel y'i cymhwysir gan adran 121(2) o'r Ddeddf(1), a hynny o ganlyniad i weithredu gorchymyn, gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod neu, yn achos gorchymyn a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ei gyflwyno i'r Awdurdod a enwebir gan y Cynulliad Cenedlaethol, fel a ddarperir gan adran 28(3) o'r Ddeddf, a hynny drwy ei ddanfon i swyddfeydd yr Awdurdod neu'r awdurdod a enwebir gan y Cynulliad Cenedlaethol (yn ôl y digwydd), wedi'i gyfeirio at Brif Weithredwr yr awdurdod, neu drwy ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post wedi'i gyfeirio felly.

(2) Rhaid i hawliad a wneir o dan baragraff (1) gael ei gyflwyno fel ei fod yn dod i law heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl y dyddiad y daeth y gorchymyn y gwneir yr hawliad mewn cysylltiad ag ef i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2).

5 Gorffennaf 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Claims for compensation as respects orders

6.-(1) A claim made in accordance with section 28 of the Act (compensation for loss caused by public path creation order), as applied by section 121(2) of the Act(1), in consequence of the coming into operation of an order must be made in writing and must be served on the Authority or, in the case of an order made by the National Assembly, on the Authority nominated by the National Assembly as provided by section 28(3) of the Act, by delivering it to the offices of the Authority or the authority nominated by the National Assembly (as the case may be), addressed to its Chief Executive, or by sending it by prepaid post so addressed.

(2) A claim made under paragraph (1) must be served so as to be received not later than six months after the date on which the order in respect of which the claim is made came into force.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(2).

5 July 2005

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) Diwygiwyd adran 121(2) o'r Ddeddf gan Ddeddf Trafndiaeth a Gweithfeydd 1992 (p.42), Atodlen 2, paragraff 6 a chan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37), Atodlen 6, paragraff 14.

(2) 1998 p.38.

(1) Section 121(2) of the Act was amended by the Transport and Works Act 1992 (c.42), Schedule 2, paragraph 6 and by the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37), Schedule 6, paragraph 14.

(2) 1998 c.38.

Rheoliad 3(1)(a)

Regulation 3(1)(a)

FFURF

FORM

DEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 118B

HIGHWAYS ACT 1980, SECTION 118B

GORCHYMYN DILEU ARBENNIG AR
GYFER PRIFFYRDD PENODOL SY'N
CROESI TIR SY'N CAEL EI FEDDIANNU
AT DDIBENION YSGOL

SPECIAL EXTINGUISHMENT ORDER FOR
CERTAIN HIGHWAYS WHICH CROSS
LAND OCCUPIED FOR THE PURPOSES
OF A SCHOOL

[ENW'R AWDURDOD]

[NAME OF AUTHORITY]

[ENW'R GORCHYMYN]

[TITLE OF ORDER]

Gwneir y Gorchymyn hwn gan [mewnosoder enw'r Awdurdod] ("yr Awdurdod") o dan adran 118B(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod, o ran y briffordd berthnasol [gweler troednodyn 1] a ddisgrifir yn erthygl 1 isod ("y briffordd"),-

This Order is made by [insert the name of the Authority] ("the Authority") under section 118B(4) of the Highways Act 1980 ("the 1980 Act") because it appears to the Authority that, as respects the relevant highway [see footnote 1] described in article 1 below ("the highway"),-

- (a) mai'r Awdurdod yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;
- (b) bod y briffordd yn croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol; a
- (c) ei bod yn hwylus at ddiben amddiffyn y disgyblion neu'r staff rhag-
 - (i) trais neu fygythiad o drais,
 - (ii) harasio,
 - (iii) braw neu ofid sy'n deillio o weithgaredd anghyfreithlon, neu
 - (iv) unrhyw risg arall i'w hiechyd neu i'w diogelwch sy'n deillio o weithgaredd o'r fath,

- (a) the Authority is the highway authority for the highway;
- (b) the highway crosses land occupied for the purposes of a school; and
- (c) it is expedient for the purposes of protecting the pupils or staff from-
 - (i) violence or the threat of violence,
 - (ii) harassment,
 - (iii) alarm or distress arising from unlawful activity, or
 - (iv) any other risk to their health or safety arising from such activity,

fod y briffordd yn cael ei chau.

that the highway should be stopped up.

Ymgynghorwyd â'r awdurdod heddlu [mewnosoder enw'r awdurdod heddlu] ar gyfer yr ardal lle y mae'r briffordd wedi'i lleoli fel sy'n ofynnol gan adran 118B(6) o Ddeddf 1980.

The police authority [insert the name of the police authority] for the area in which the highway lies has been consulted as required by section 118B(6) of the 1980 Act.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

The [insert name(s)] Authorit[y][ies] [has] [have] been consulted as required by section 120(2)(a) of the 1980 Act [complete or delete as appropriate].

Mae Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(1A) a (2)(b) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

The [insert name(s)] Authorit[y][ies] [has] [have] consented to the making of the Order as required by section 120(1A) and (2)(b) of the 1980 Act [complete or delete as appropriate].

[Ymgynghorwyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980]

[The [insert name] National Park Authority has been consulted as required by section 120(2)(a) of the 1980 Act]

[Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(b) o Ddeddf 1980] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol]

[Ymgynghorwyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(c) o Ddeddf 1980.]

GAN Y GORCHYMYN HWN:

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn [ym] [yng] [mewnosoder lleoliad], a ddangosir ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn â llinell drom ddi-dor ac a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei dileu, a hynny ar ôl [mewnosoder nifer] o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.
2. [Mae'r ddarpariaeth(darpariaethau) a ganlyn yn gymwys er mwyn amddiffyn [mewnosoder enw ymgymerydd statudol], sef: [mewnosoder darpariaeth(au)]] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol - gweler troednodyn 2].

[mewnosoder y dyddiad]

Llofnodwyd [mewnosoder llofnod]

[safle o fewn yr Awdurdod]

[enw'r Awdurdod]

YR ATODLEN

[Dylid disgrifio lleoliad, hyd a lled y briffordd fesul rhan, e.e. A-B, B-C ac yn y blaen, fel a ddangosir ar y map]

Y Troednodiadau

1. Diffinnir "relevant highway" ("priffordd berthnasol") yn adran 118B(2) o Ddeddf 1980 fel -
 - (a) unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig;
 - (b) unrhyw briffordd a ddangosir ar fap diffiniol ac mewn datganiad fel llwybr troed, llwybr ceffylau, neu gilffordd gyfyngedig, ac y mae gan y cyhoedd hawl dramwy drosti ar gyfer cerbydau a phob math arall o draffig; neu
 - (c) unrhyw briffordd a ddangosir ar fap diffiniol ac mewn datganiad fel cilffordd sydd ar agor i bob traffig,

ond nid yw'n cynnwys priffordd sy'n gefnffordd neu'n ffordd arbennig.

2. Gweler adran 121(5) o Ddeddf 1980.

Dylid llenwi'r bylchau fel y bo'n briodol.

[The [insert name] National Park Authority has consented to the making of the Order as required by section 120(2)(b) of the 1980 Act] [complete or delete as appropriate]

[The Countryside Council for Wales has been consulted as required by section 120(2)(c) of the 1980 Act.]

BY THIS ORDER:

1. The public right of way over the land situated at [insert location], shown by a continuous bold line on the map contained in this Order and described in the Schedule to this Order will be extinguished after [insert number] days from the date of confirmation of this Order.
2. [The following provision(s) apply for the protection of [insert name of statutory undertaker], namely: [insert provision(s)]] [complete or delete as appropriate - see footnote 2].

[insert date]

Signed [insert signature]

[position held with the Authority]

[name of the Authority]

SCHEDULE

[Describe position, length and width of the highway in sections, eg A-B, B-C etc, as indicated on the map]

Footnotes

1. "Relevant highway" is defined in section 118B(2) of the 1980 Act as -
 - (a) any footpath, bridleway or restricted byway;
 - (b) any highway which is shown in a definitive map and statement as a footpath, a bridleway, or a restricted byway, but over which the public have a right of way for vehicular and all other kinds of traffic; or
 - (c) any highway which is shown in a definitive map and statement as a byway open to all traffic,

but does not include a highway that is a trunk road or is a special road.

2. See section 121(5) of the 1980 Act.

Complete the blank spaces as appropriate.

Rheoliad 3(1)(b)

Regulation 3(1)(b)

FFURF

FORM

DEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 119B

HIGHWAYS ACT 1980, SECTION 119B

GORCHYMYN GWYRO ARBENNIG AR
GYFER PRIFFYRDD PENODOL SY'N
CROESI TIR SY'N CAEL EI FEDDIANNU
AT DDIBENION YSGOL

SPECIAL DIVERSION ORDER FOR
CERTAIN HIGHWAYS WHICH CROSS
LAND OCCUPIED FOR THE PURPOSES
OF A SCHOOL

[ENW'R AWDURDOD]

[NAME OF AUTHORITY]

[ENW'R GORCHYMYN]

[TITLE OF ORDER]

Gwneir y Gorchymyn hwn gan [mewnosoder enw'r Awdurdod] ("yr Awdurdod") o dan adran 119B(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod, o ran y briffordd berthnasol [gweler troednodyn 1] a ddisgrifir yn erthygl 1 isod ("y briffordd"),-

This Order is made by [insert the name of the Authority] ("the Authority") under section 119B(4) of the Highways Act 1980 ("the 1980 Act") because it appears to the Authority that, as respects the relevant highway [see footnote 1] described in article 1 below ("the highway"),-

- (a) mai'r Awdurdod yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;
- (b) bod y briffordd yn croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol;
- (c) ei bod yn hwylus, at ddiben amddiffyn y disgyblion neu'r staff rhag-
 - (i) trais neu fygythiad o drais,
 - (ii) harasio,
 - (iii) braw neu ofid sy'n deillio o weithgaredd anghyfreithlon, neu
 - (iv) unrhyw risg arall i'w hiechyd neu i'w diogelwch sy'n deillio o weithgaredd o'r fath,

- (a) the Authority is the highway authority for the highway;
- (b) the highway crosses land occupied for the purposes of a school;
- (c) it is expedient, for the purpose of protecting the pupils or staff from-
 - (i) violence or the threat of violence,
 - (ii) harassment,
 - (iii) alarm or distress arising from unlawful activity, or
 - (iv) any other risk to their health or safety arising from such activity,

bod llinell y briffordd, neu ran o'r llinell honno, yn cael ei gwyro; ac

that the line of the highway, or part of that line, should be diverted; and

- (ch) ei bod, at y diben hwnnw, yn ofynnol dileu'r hawl dramwy gyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn a chreu'r hawl dramwy gyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.

- (d) it is requisite for that purpose to extinguish the public right of way described in Part 1 of the Schedule to this Order and to create the public right of way described in Part 2 of that Schedule.

Ymgynghorwyd â'r awdurdod heddlu [mewnosoder enw'r awdurdod heddlu] ar gyfer yr ardal lle y mae'r briffordd wedi'i lleoli fel sy'n ofynnol gan adran 119B(6) o Ddeddf 1980.

The police authority [insert the name of the police authority] for the area in which the highway lies has been consulted as required by section 119B(6) of the 1980 Act.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

The [insert name(s)] Authorit[y][ies] [has] [have] been consulted as required by section 120(2)(a) of the 1980 Act [complete or delete as appropriate].

Mae Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(1A) a (2)(b) o Ddeddf 1980

The [insert name(s)] Authorit[y][ies] [has] [have] consented to the making of the Order as required by section 120(1A) and (2)(b) of the 1980 Act [complete

[dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

[Ymgynghorwyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980]

[Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(b) o Ddeddf 1980] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol] a

[Ymgynghorwyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(c) o Ddeddf 1980.]

GAN Y GORCHYMYN HWN:

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn [ym] [yng] [mewnosoder lleoliad], a ddangosir â llinell drom ddi-dor ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei dileu ar ôl [mewnosoder nifer] o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn [ond nid cyn trannoeth y dyddiad ardystio] [dileer os nad yw'n briodol - gweler troednodyn 2].

[Yn yr erthygl hon, "y dyddiad ardystio" yw'r dyddiad y bydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd newydd a grybwyllir yn erthygl 3 yn ardystio fod gwaith o'r fath wedi ei gyflawni fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyflwr y briffordd yn addas i'r cyhoedd ei defnyddio.] [dileer os nad yw'n briodol - gweler troednodyn 2].

2. Mae'r ddarpariaeth (darpariaethau) a ganlyn yn gymwys ar gyfer amddiffyn [mewnosoder enw'r ymgymerydd statudol], sef [mewnosoder darpariaeth (darpariaethau)] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol - gweler troednodyn 3].
3. Ar ddiwedd cyfnod o [mewnosoder nifer] o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn, bydd hawl dramwy gyhoeddus newydd sef [noder y math o hawl dramwy newydd - gweler troednodyn 4] dros y tir a leolir yn [ym] [yng] [mewnosoder lleoliad] ac a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac a ddangosir â llinell drom doredig ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn.
4. Mae'r hawliau a roddir i'r cyhoedd o dan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau a geir yn Rhan 3 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn] [dileer os nad oes cyfyngiadau ac amodau'n cael eu pennu yn y Gorchymyn hwn].

[mewnosoder dyddiad]

Llofnodwyd [mewnosoder llofnod]

[safle o fewn yr Awdurdod]

[enw'r Awdurdod]

or delete as appropriate].

[The [insert name] National Park Authority has been consulted as required by section 120(2)(a) of the 1980 Act]

[The [insert name] National Park Authority has consented to the making of the Order as required by section 120(2)(b) of the 1980 Act] [complete or delete as appropriate] and

[The Countryside Council for Wales has been consulted as required by section 120(2)(c) of the 1980 Act.]

BY THIS ORDER:

